# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 6 Mawrth 2000

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i ofyn yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Ers dod yn Brif Ysgrifennydd, pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Trysorlys am Amcan Un ac arian cyfatebol. (WAQ4070)

Gofyn i Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Trysorlys am yr arolwg a gynhelir ym mis Mawrth o'r eitemau 'Gwariant a Reolir yn Flynyddol' sy'n effeithio ar gyllideb y Cynulliad. (WAQ4029)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar 'Gyfrifo a Chyllidebu Adnoddau' a sut y bydd yn effeithio ar wariant cyhoeddus yng Nghymru. (WAQ4030)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut bydd Cyfrifo a Chyllidebu Adnoddau yn effeithio ar y modd y bydd Fformwla Barnett yn cael ei gweithio. (WAQ4031)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad ynghylch sawl eitem 'Gwariant a Reolir yn Flynyddol' y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt. (WAQ4032)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ymgynghori a fu rhyngddi a'r Trysorlys ynghylch y ffordd y bydd 'Cyfrifo a Chyllidebu Adnoddau' yn newid Fformwla Barnett, a phryd caiff y canlyniadau eu cyhoeddi. (WAQ4033)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw wedi trafod sut mae Fformwla Barnett yn gweithio gyda chynrychiolwyr Trysorlys ei Mawrhydi ac a oes ganddi gynlluniau i gynnal trafodaeth o'r fath yn y dyfodol. (WAQ4034)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes ganddi gynlluniau i ymchwilio i'r modd y gellid diwygio Fformwla Barnett er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi ystyriaeth i anghenion cymharol Cymru. (WAQ4035)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru) ;** Pa gyfran o gyllideb y Cynulliad a gyfrifir drwy Fformwla Barnett ac o ba ffynonellau eraill y daw cyllideb y Cynulliad. (WAQ4036)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru) ;** O dan ba amgylchiadau y caiff cyfyngiadau Gwariant Adrannol eu hadolygu yn ystod eu cyfnodau 3 blynedd (WAQ4037)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o gyfanswm gwariant y Cynulliad sy'n cael ei glustnodi gan Drysorlys Ei Mawrhydi a sut caiff y gwariant ei ddosbarthu ar draws y Prif Grwpiau Gwariant. (WAQ4038)

**Jane Davidson (Pontypridd);** Sut gall y Cynulliad Cenedlaethol wella bywydau pobl ag anableddau yng Nghymru a sut gallwn hybu dealltwriaeth well o'r materion sy'n wynebu pobl anabl i sicrhau na chânt eu heithrio rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. (WAQ4076)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru) ;** A wnaiff ddatganiad ynghylch a oes yswiriant ar gael mewn achos o lygru amgylcheddol sy'n digwydd o ganlyniad i dyfu cnydau a addaswyd yn enetig ar sail fasnachol. (WAQ4043)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth mae'n ei wneud i reoli'r modd y trwyddedir cnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru a rhyddhau bwydydd sydd wedi'u haddasu'n enetig i'r farchnad yng Nghymru (WAQ4064)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru) ;** A wnaiff gyhoeddi rhestr o'r cwmnïau yswiriant sy'n darparu yswiriant ar gyfer achos o halogi amgylcheddol gan gnydau a addaswyd yn enetig. (OAQ4073)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw wedi derbyn unrhyw sylwadau ynghylch y ffaith bod y cyfleusterau parcio yn y Bontnewydd ar Wy, Powys wedi'u cau, ac os felly, a

wnaiff eu cyhoeddi. (OAQ4065).

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ganran o ffermwyr defaid Cymru sydd wedi talu’r tâl monitro blynyddol a godir gan Asiantaeth yr Amgylchedd o dan y Rheoliadau Dwr Daear. (WAQ4074)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddi i asesu’r effaith ar nifer yr achosion o’r clafr o ganlyniad i wahardd dipiau organoffosffad a chyflwyno’r Rheoliadau Dwr Daear (WAQ4075)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A fydd yn ceisio gwneud y drefn gofal preswyl i’r henoed yn fwy cyfartal rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. (WAQ4066)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o lawdriniaethau i roi clun newydd ellid eu cynnal yng Nghymru am £25 miliwn (gan gymryd cost llawdriniaeth o’r fath ar gyfartaledd). (WAQ4067)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o lawdriniaethau cataract ellid eu cynnal yng Nghymru am £25 miliwn (gan gymryd cost llawdriniaeth o’r fath ar gyfartaledd). (WAQ4068)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau mae’n eu cymryd i wireddu addewid y blaid Lafur yn yr etholiad i leihau rhestrau aros fel y cam cyntaf. (WAQ4071)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa ddarpariaeth ariannol y mae’n ei gwneud i Ymddiriedolaethau’r NHS a chyrff eraill, er mwyn eu cynorthwyo i gwrdd â chostau cydymffurfio â’r Cyfarwyddeb Amser Gweithio. (WAQ4072)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff lansio ymgyrch i sefydlu Oriel Gelf Genedlaethol i Gymru gan gynnwys y sectorau cyhoeddus a phreifat a chan ddefnyddio arian y Loteri. (WAQ4069)